



***PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO A DATBLYGU  
CYNALIADWY***

***10.00 AM DYDD GWENER, 25 CHWEFROR 2022***

***O BELL TRWY TEAMS***

**Rhaid gosod pob ffôn symudol ar y modd distaw ar gyfer parhad y cyfarfod**

**Rhan 1**

1. Croeso a galw'r rhestr
2. Cyhoeddiad y Cadeirydd
3. Datganiadau o fuddiannau
4. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol (*Tudalennau 5 - 54*)
  - 3 Rhagfyr 2021
  - 14 Ionawr 2022
5. Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd - Diweddariad ar Gynnydd (*Tudalennau 55 - 60*)
6. Craffu Cyn Penderfynu  
Dewis eitemau priodol o agenda'r Cabinet ar gyfer craffu cyn penderfynu (amgaeir adroddiadau ar gyfer yr Aelodau Craffu)
7. Blaenraglen Waith (*Tudalennau 61 - 64*)
8. Eitemau brys  
Unrhyw eitemau brys (boed yn gyhoeddus neu wedi'u heithrio) yn ol disgrisiwn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

9. Mynediad i gyfarfodydd  
Mynediad i gyfarfodydd i benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r eitem ganlynol yn unol ag Is-adran 100a(4) a (5) Deddf Llywodraeth Leol 1972 a'r paragraffau eithriedig perthnasol o Ran 4 Atodlen 12a y Ddeddf uchod.

## **Rhan 2**

10. Craffu Eitem/Eitemau Preifat Cyn Penderfynu  
Dewis eitemau preifat priodol o agenda cyn craffu Bwrdd y Cabinet (Adroddiadau Bwrdd y Cabinet yn amgaaedig ar gyfer yr aelodau craffu).

**K.Jones**  
**Prif Weithredwr**

**Canolfan Ddinesig**  
**Port Talbot**

**Dydd Gwener, 18 Chwefror 2022**

### **Aelodaeth y Pwyllgor:**

**Cadeirydd: S.K.Hunt**

**Is-gadeirydd: R.L.Taylor**

**Cynghorwyr:** D.Cawsey, C.J.Jones, H.N.James, S.M.Penry, S.Pursey, S.Rahaman, N.T.Hunt, S.Bamsey, J.Evans a/ac S.A.Knoyle

### **Nodiadau:**

- (1) *Os yw aelodau'r pwyllgor neu'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am gynnig eitemau perthnasol i'w cynnwys ar yr agenda cyn cyfarfodydd y dyfodol, rhaid iddynt roi gwybod i'r Prif Weithredwr/Cadeirydd 8 niwrnod cyn y cyfarfod.*
- (2) *Os yw'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am fod yn bresennol ar gyfer eitem o ddiddordeb, mae'n rhaid rhoi rhybudd ymlaen llaw*

*(erbyn 12 hanner dydd ar y diwrnod cyn y cyfarfod). Gall y rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor siarad ond nid oes ganddynt hawl i bleidleisio, cynnig nac eilio unrhyw gynnig.*

- (3) Fel arfer, ar gyfer trefniadau cyn craffu, bydd y Cadeirydd yn argymhell eitemau gweithredol sydd ar ddod i'w trafod/herio. Mae hefyd yn agored i aelodau'r pwyllgor ofyn i eitemau gael eu trafod - er y gofynnir i'r aelodau ddewis a dethol yma o ran materion pwysig.*
- (4) Gwahoddir aelodau perthnasol Bwrdd y Cabinet hefyd i fod yn bresennol yn y cyfarfod at ddibenion Craffu/Ymgynghori.*
- (5) Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Craffu ddod â'u papurau ar gyfer Bwrdd y Cabinet i'r cyfarfod.*

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag

## PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO A DATBLYGU CYNALIADWY

(O Bell Trwy Teams)

**Aelodau sy'n Bresennol:**

**Dydd Gwener, 3 Rhagfyr 2021**

<b>Cadeirydd:</b>	<b>Cynghorydd S.K.Hunt</b>
<b>Is-gadeirydd:</b>	<b>Cynghorydd R.L.Taylor</b>
<b>Cynghorwyr:</b>	D.Cawsey, H.N.James, S.Pursey, S.Rahaman, N.T.Hunt a/ac S.A.Knoyle
<b>Swyddogion sy'n Bresennol:</b>	C.Morris, S.Brennan, A.Griffiths, H.Jones, J.Woodman-Ralph, L.Beynon, N.Chapple, A. Collins a/ac C.Plowman
<b>Gwahoddedigion:</b>	Cynghorwyr A.Wingrave, L.Jones, C.Clement- Williams, N.J.E.Davies, J.Jones, S.Jones a/ac S.H.Reynolds

---

### 1. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiad o fudd:

Y Cyng. S Pursey - Parthed. Eitem 8 ar Agenda Bwrdd y Cabinet - Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 - Adolygiad o Deithio Llesol CNPT gan ei fod wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ac roedd ei ymatebion a'i awgrymiadau ymhlith y rhai i'w cymeradwyo yn yr adroddiad.

### 2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 17 Medi 2021 a 22 Hydref 2021.

### 3. CYFLWYNIAD CYMDEITHAS TWNNEL Y RHONDDA

Derbyniodd yr aelodau gyflwyniad gan Ysgrifennydd y Prosiect a Chadeirydd Cymdeithas Twannel y Rhondda; roedd y cyflwyniad yn manylu ar y tair prif thema ganlynol:

- Costau'r prosiect;
- Creu atyniad 'rhaid ymweld ag ef';
- Cynlluniau i symud y prosiect ym Mlaengwynfi yn ei flaen.

Nodwyd bod is-bwyllgor technegol wedi'i sefydlu, a'i fod yn cynnwys Uwch Beirianwyr sydd wedi ymddeol; roedd yr is-bwyllgor wedi cynhyrchu cynlluniau manwl ar gyfer y twannel, a gymeradwywyd gan Gyfarwyddwr Cyswllt Arup yng Nghaerdydd.

Hysbyswyd y pwyllgor y bydd gwaith corfforol y prosiect yn cymryd 18 mis; a bod costau'r prosiect yn cynnwys y canlynol:

- Canolfannau Ymwelwyr ar ddau ben y twannel;
- Cynlluniau micro-hydro ar ddau ben y twannel; roedd y Gymdeithas yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i ddatblygu'r rhain. Ychwanegwyd y bydd y cynlluniau micro-hydro yn darparu pŵer gwyrdd, a hefyd yn rhoi cyfle i sefydlu cyfleusterau gweithio o bell yn y Canolfannau Ymwelwyr.

Cadarnhaodd Ysgrifennydd Prosiect y Gymdeithas fod cost y prosiect wedi'i dilysu gan *Corderoy*, Syrfêwr Meintiau; a'r amcangyfrif a roddwyd ar gyfer y prosiect cyffredinol oedd £13.111 miliwn.

Hysbyswyd yr aelodau fod gan dde Cymru ddau dwnnel rheilffordd hir segur, un rhwng Abernant a Merthyr a'r llall yn y Rhondda, Blaengwynfi; Roedd gan Gyngor Rhondda Cynon Taf borth yn y ddau dwnnel. Dywedwyd bod twannel Abernant-Merthyr yn llwybr teithio llesol rhwng Merthyr ac Aberdâr, ac roedd twannel y Rhondda yn fwy o atyniad i ymwelwyr a dyma fyddai'r twannel hwyaf yn Ewrop. O ran twannel Abernant-Merthyr, nodwyd ei fod wedi parhau â chyllid cyhoeddus ond nad yw wedi cael llawer o gefnogaeth gan y cyhoedd; fodd bynnag, mae Cyngor Merthyr yn parhau i lobio'n galed am gymorth. Eglurodd Ysgrifennydd y Prosiect fod twannel y Rhondda wedi cael llawer o gefnogaeth gan y cyhoedd, fodd bynnag, ychydig iawn o arian cyhoeddus a gafwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf; gallai cefnogaeth gref gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot helpu i gydbwyso hyn.

Tynnwyd sylw at y pwyntiau canlynol o ran y sefyllfa bresennol:

- Roedd y ddau dwannel yn eiddo i Adran Drafnidiaeth San Steffan (AD);
- Cadarnhaodd yr AD y byddant yn trosglwyddo'r twneli i Lywodraeth Cymru gyda swm bach; £60,000 ar gyfer twnnel y Rhondda, fodd bynnag roedd Llywodraeth Cymru am gael sawl miliwn o bunnoedd ar ei gyfer;
- Roedd Chris Bryant, Aelod Seneddol (AS), yn mynd i gysylltu â'r AD ar ran Llywodraeth Cymru am arian;
- Roedd Cyngor RhCT wrthi'n recriwtio ymgynghorydd i weithio ar ysgrifennu cais drwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri am £5 miliwn yn benodol ar gyfer twnnel y Rhondda.

Chwaraewyd fideo i'r pwyllgor a oedd yn dangos Chris Bryant AS yn San Steffan, yn gwahodd Grant Shapps AS i ymweld â thwnnel y Rhondda.

Nodwyd bod canol twnnel y Rhondda yn sych ac yn fwyn drwy'r flwyddyn, a bod ganddo 526 o alcofau a oedd yn darparu llawer o gyfleoedd; roedd y twnnel yn cynnig gofod arddangos enfawr, ac un syniad oedd defnyddio'r alcofau ar gyfer arddangosfeydd rhyngweithiol o hanes Cymru. Ychwanegwyd y gellid noddi rhai o'r arddangosfeydd, ac roedd llawer o ddiddordeb gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru; roedd gan y rheini sy'n gweithio ar y prosiect lawer o syniadau gwahanol, ac roeddent yn croesawu syniadau pellach. Awgrym arall y tynnwyd sylw ato oedd defnyddio'r waliau moel ar gyfer arddangosfeydd sain a golau.

Cyflwynwyd cynlluniau i'r pwyllgor ar gyfer rhan arddangos arfaethedig twnnel y Rhondda; roedd cynlluniau i roi rhwystr y gellir ei symud i lawr y canol, i ehangu'r twnnel i'w led llawn (4.3 metr) ac i ddyrannu ochr i gerddwyr gydag alcofau arddangos, a'r ochr arall i feicwyr ei defnyddio.

Hysbyswyd yr aelodau am y cynlluniau i ymestyn y twnnel ychydig, a fydd yn gwneud y twnnel dros ddwy filltir o hyd; byddai'n cymryd awr i gerdded o un pen i'r llall. Nodwyd y byddai datblygu twnnel mor hir yn her ac roedd angen ystyried hyn yn ofalus, fodd bynnag byddai'n arbennig ar gyfer de Cymru; dyna pam yr oedd llawer o bwyslais ar y cyfleusterau/arddangosfeydd yn y twnnel, gan y bydd yr elfennau hyn yn ei gwneud yn fwy na thwnnel cerdded/beicio hwyaf Ewrop.

Roedd y cyflwyniad yn cynnwys lluniau o safle twnnel y Rhondda ym Mlaengwynfi o'r 1970au a sut mae'n edrych heddiw; gan arddangos faint roedd y safle wedi newid. Soniwyd bod angen twll dwfn i gael

mynediad i borth y twnnel, ac o hyn bydd llawer o wastraff i'w symud; y cynllun presennol oedd cloddio'r llwybr dynesu. Hysbyswyd yr aelodau fod cwmni o'r enw hyperTunnel wedi cysylltu â'r Gymdeithas gyda thechnoleg dwnelu newydd i greu estyniad i'r twnnel. Esboniodd Ysgrifennydd y Prosiect yr hyn y byddai'r cwmni'n ei wneud i greu llai o aflonyddwch a gwastraff, a llai o newid ym Mlaengwynfi; roedd cynlluniau hefyd i ymchwilio i ddewis amgen "Torri a Gorchuddio" a oedd yn fwy confensiynol.

Rhannwyd delweddau sy'n dangos y cynlluniau a'r syniadau presennol ar gyfer pwynt mynediad twnnel y Rhondda; byddai'r estyniad yn dod â phorth y twnnel i'r arwyneb, a fyddai'n atal amharu ar ochr y bryn.

Darparwyd crynodeb byr o'r dechneg hyperTunnel i'r aelodau; ynghyd â'r cynlluniau manwl a luniwyd gan yr is-bwyllgor technegol. Roedd y cynlluniau manwl yn tynnu sylw at faint o wastraff y byddai angen ei symud a'i ddyddodi pe bai'r twnnel yn cael ei gloddio, a hefyd pe bai'r twnnel yn cael ei ymestyn.

Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â pherchnogaeth y twnnel; dangoswyd map a oedd yn tynnu sylw at y rhannau o dir yr oedd Cyngor CNPT yn berchen arnynt. Esboniwyd bod y rhan fwyaf o'r twnnel, gan gynnwys y safle ar gyfer yr estyniad arfaethedig, o fewn tir CNPT; felly, bydd y cais cynllunio yn y dyfodol yn cael ei gyflwyno yn ystod cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor CNPT.

Amlygwyd y pwyntiau canlynol yn y crynodeb o'r cyflwyniad:

- Roedd Cymdeithas Twnnel y Rhondda wedi bod yn ymgyrchu ers 2015;
- Cafwyd cefnogaeth wleidyddol enfawr, fodd bynnag roedd adroddiadau ac oedi diddiwedd;
- Roedd y gymdeithas am godi'r arian ar gyfer estyniad Blaengwynfi, yn annibynnol ar gyllid cyhoeddus;
- Gellid agor y siafft aer ar gyfer abseilio i ddenu ymwelwyr cyn i'r prif dwnnel agor, a fyddai'n dechrau cyflwyno manteision wrth i weddill y twnnel gael ei ddatblygu;
- Roedd cynigion petrus o ryw faint o gyllid eisoes wedi'u derbyn;
- Cynhaliwyd trafodaethau gyda Chyngor RhCT ynghylch darparu'r "arian cyfatebol", a oedd yn hanfodol ar gyfer y rhan fwyaf o geisiadau;
- Roedd y gymdeithas yn dal i aros am gynnig costio llawn gan hyperTunnel. Fodd bynnag, roedd rhai amcangyfrifon wedi'u



hystyried o ran faint o arian y byddai'n ei gostio i roi'r dewis amgen "Torri a Gorchuddio" ar waith;

- Derbyniwyd llythyr gan yr Ymddiriedolaeth Treftadaeth Rheilffyrdd, a ddyfarnodd grant o £100,000 tuag at ailagor porth Blaengwynfi twnnel y Rhondda. Roeddent hefyd wedi cynnig rhagor o arian y flwyddyn nesaf, er bod angen cadarnhau hyn yn y gyllideb yr oeddent yn ei thrafod gyda'r Priffyrdd Cenedlaethol.

Dywedodd yr aelodau ei bod yn braf gweld yr uchelgais a'r ymrwymiad at brosiect; fodd bynnag, soniodd y bydd llawer o'r cynnydd yn cael ei bennu gan faint o arian y bydd Llywodraeth y DU yn fodlon ei glustnodi. Nodwyd, wrth symud ymlaen, y byddai'n hanfodol cadw llygad ar y gwahanol ffrydiau ariannu a chyfleodd ariannol a allai fod ar gael yn y dyfodol agos; Roedd yr aelodau'n barod i helpu drwy lobïo ASau lleol.

Rhoddodd yr Aelodau Lleol a oedd yn bresennol yn y cyfarfod eu cefnogaeth i'r prosiect, gan ganmol y gwaith a gwblhawyd hyd yma; Tynnodd yr aelodau sylw hefyd at bwysigrwydd y math hwn o brosiect i Gwm Afan.

Hysbyswyd yr aelodau am y gwahanol gyfnodau gwaith a gynigiwyd; er y nodwyd y byddai rhywfaint o hyn yn dibynnu ar y pecyn ariannu rhwng San Steffan a Llywodraeth Cymru. Un o'r camau cyntaf a amlygwyd oedd cyflwyno cais cynllunio i agor y porth ym Mlaengwynfi, er mwyn cael mynediad i'r twnnel; ac yna newid y siafft aer yn elfen abseilio. Dywedwyd y bydd hyn yn dechrau'r prosiect, a rhagwelwyd y bydd y momentwm yn cael ei gario ymlaen ar ôl hyn; roedd amryw swyddi y gellid eu cwblhau am gost eithaf isel, wrth gasglu arian i gwblhau gweddill y gwaith.

Holwyd a fyddai angen i'r gymdeithas drosglwyddo'r berchnogaeth o'r AD cyn y gall y gwaith datblygu ddechrau; roedd y gwaith sy'n ymwneud â'r estyniad wedi'i leoli'n gyfan gwbl o fewn tir CNPT, felly ni fyddai angen trosglwyddo'r berchnogaeth i ddechrau'r elfen hon o'r gwaith.

Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â'r cysylltiad rhwng isadeiledd a thwristiaeth y prosiect. Cadarnhawyd bod cylch troi bws ar ochr y Rhondda ym Mlaencwm a fyddai o ddefnydd; roedd gwasanaeth bws 20 munud i lawr y dyffryn hefyd, a oedd o fewn 400 medr i'r porth yn y Rhondda. O ran cynlluniau ar gyfer y dyfodol, nodwyd bod y gymdeithas yn bwriadu cynnwys llwybr beicio di-draffig i orsaf

Treherbert, a bws gwennol i'r rheini a oedd am gerdded un ffordd drwy'r twnnel yn unig; byddai'r bws gwennol wedyn yn mynd â'r unigolion hynny yn ôl i'r dechrau. Ychwanegwyd y byddai'r gymdeithas hefyd yn hoffi datblygu llwybr beiciau llogi, a fydd yn lledaenu'r manteision ledled y cwm. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Prosiect y byddai'r gymdeithas yn gweithio gyda Chyngor CNPT gymaint â phosib, yn enwedig yn ystod y cam cyn cynllunio, i drafod yr elfennau hyn.

Diolchodd yr aelodau i Ysgrifennydd y Prosiect a Chadeirydd Cymdeithas Twnnel y Rhondda am eu cyflwyniad a'r gwaith a wnaed hyd yma i fwrw ymlaen â'r prosiect.

#### 4. **DIWEDDARIAD AR NODDI ASEDAU**

Rhoddodd swyddogion ddiweddariad llafar ar y pwnc Noddi Asedau, gan gynnwys y ddau brif faes; adroddiad statws ar noddi cylchfannau a'r cynnydd a wnaed gyda Clear Channel sy'n gweithredu safleoedd bysus.

Rhoddodd Gydlynnydd Masnachol y cyngor wybodaeth gefndir i'r aelodau am nawdd asedau; gan dynnu sylw at y ffaith y cudnabuwyd dros y blynyddoedd fod cyfleoedd posib i gynhyrchu incwm yn cael eu cyflwyno gan asedau fel cylchfannau, ymylon ffyrdd, colofnau goleuo etc.

##### Noddi Cylchfan

Yn dilyn proses dendro yn 2011, cyngorwyd yr aelodau fod y cyngor wedi dewis rhoi'r swyddogaeth rheoli a gwerthu o ddarparu cyfleoedd hysbysebu ar gylchfannau i gynhyrchu cyllid, ar gontract allanol i gwmni o'r enw Immediate Solutions; sefydlwyd yr hysbyseb gyntaf yng Nghastell-nedd Port Talbot (CNPT) yn 2012, ac ym mis Mehefin 2017 estynnodd y cyngor y contract am bedair blynedd arall. Nodwyd bod refeniw yn cyfateb i ddisgwyliadau yn ystod blynyddoedd cyntaf yr estyniad i'r contract; fodd bynnag, heb fod yn hir ar ôl hynny, dechreuodd y refeniw ostwng.

Esboniwyd, ar ôl ymgynghori ag aelodau a swyddogion amrywiol, fod y cyngor wedi dewis rhoi tri mis o rybudd o derfynu contract i Immediate Solutions; teimlwyd y gellid dyrchafu'r gwaith hwn drwy ddod ag ef yn fewnol, a gellid archwilio cyfleoedd amrywiol i gwsmeriaid, yn ogystal â chreu mwy o incwm na'r hyn a dderbyniwyd o'r blaen.

Hysbyswyd y pwyllgor fod y contract gydag Immediate Solutions wedi dod i ben ar ddiwedd Mehefin 2021; ers hynny roedd y cyngor wedi bod yn amnewid contractau ar gyfer y cylchfannau a noddir eisoes, ac yn sefydlu'r portffolio a'r systemau yr oedd angen eu rhoi ar waith er mwyn cynnig y cyfleoedd hynny i gwsmeriaid lleol. Tynnwyd sylw at y manteision amrywiol o weithredu hyn yn lleol; gan gynnwys gallu darllen y farchnad i ddeall yr hyn y mae busnesau am ei hysbysebu, gallu ymateb yn llawer gyflymach pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le, a chreu mwy o incwm.

Darparwyd crynodeb, lle rhoddwyd gwybod i'r pwyllgor fod y Cydlynnydd Masnachol wedi bod mewn cysylltiad â darpar gwsmeriaid ar gyfer hysbysebion cylchfan yn yr ardal, a bod nifer o archebion wedi'u trefnu.

### Hysbysebu ar Safleoedd Bysus

Esboniodd swyddogion fod cwmni o'r enw Clear Channel ar hyn o bryd yn gwerthu'r hysbysebion safleoedd bysus yn CNPT; roedd y cyngor yn berchen ar y rhan fwyaf o'r adeileddau safleoedd bysus yn y Fwrdeistref Sirol, ac mae Clear Channel yn berchen ar tua 10.

Dywedwyd bod gan y cyngor gytundeb y mae modd ei gopïo ar waith gyda Clear Channel lle byddent yn cynnal ac atgyweirio unrhyw ddifrod i'r safleoedd bysus a ddefnyddiwyd ganddynt ar gyfer hysbysebu; roedd hyn yn gyfnewid am ganiatáu iddynt wneud hynny.

Hysbyswyd yr aelodau fod y Cydlynnydd Masnachol wedi gwneud gwaith ymchwil yn ddiweddar mewn perthynas â hysbysebu ar safleoedd bysus, a chanfu fod Awdurdodau Lleol eraill wedi derbyn comisiwn arnynt; yn dilyn hyn, aeth swyddogion ymlaen i fynd drwy'r prosesau perthnasol er mwyn i Gyngor CNPT gael comisiwn. Tynnwyd sylw at y ffaith y gwnaed argymhelliad i ail-lofnodi cytundeb pum mlynedd arall gyda Clear Channel, ond y tro hwn gyda swm penodol o arian wedi'i gynnwys fel rhan o'r contract; gan gynnwys ffi flynyddol benodol ar gyfer pob poster y maent am ei newid i sgrîn ddigidol. Dywedodd swyddogion fod y sgriniau digidol yn cynyddu o ran poblogrwydd; roedd gan y cwmni gynllun uchelgeisiol i newid llawer o'r posteri mewn lleoliadau poblogaidd i sgriniau digidol. Ychwanegwyd bod swyddogion yn symud ymlaen â'r argymhelliad hwn; Roedd uwch-swyddogion yn edrych dros y manylion ar hyn o bryd.

### Meysydd gwaith allweddol eraill

Yn ogystal â'r uchod, tynnwyd sylw at y ffaith bod y Cydlynnydd Masnachol wedi bod yn siarad â busnesau bach lleol, ac wedi canfod mai ychydig iawn o gyfleoedd oedd iddynt hysbysebu a hyrwyddo eu hunain; er enghraifft, roedd hysbysebion ar safleoedd bysus yn cael eu defnyddio'n bennaf gan gwmnïau cenedlaethol ac roeddent yn eithaf drud. Dywedodd swyddogion oherwydd hyn y bydd rhai busnesau bach yn defnyddio posterï anghyfreithlon a/neu faneri i hysbysebu. Er mwyn lleihau'r defnydd o hysbysebu anghyfreithlon, roedd swyddogion yn gobeithio creu cyfleoedd llai, tymor byr i hysbysebu'n lleol am gost ratach; gallai'r cyngor reoli'r rhestr eiddo a chynhyrchu incwm o hyn, yn ogystal â chefnogi ei fusnesau lleol.

Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â risgiau iechyd a diogelwch y mathau anghyfreithlon o hysbysebu awyr agored, fel baneri. Cadarnhawyd bod swyddogion yn gweithio ar bolisi a fydd yn cwmpasu'r holl elfennau perthnasol sy'n ymwneud â'r mater hwn; fodd bynnag, roedd gorfodi arwyddion anghyfreithlon yn cyd-fynd â chael cyfleoedd i gynnig i'r busnesau hyn. Ychwanegwyd y gallai rhoi cyfleoedd hysbysebu i fusnesau lleol helpu i leihau hysbysebu anghyfreithlon; a bydd y polisi'n darparu cysondeb ac yn helpu i reoli'r materion, a bydd yn ddogfen y gall pob parti ei deall a chyfeirio ati.

Gofynnodd yr aelodau a oedd potensial i incwm gael ei gynhyrchu ar gyfer noddi mewn ffyrdd eraill. Cadarnhaodd swyddogion fod cyfleoedd diddiwedd o greu refeniw; Roedd yr Awdurdodau Lleol yn cyrraedd 100% o'u cynulleidfa, preswylwyr yr ardal, ac un o'r prif dasgau oedd dod o hyd i ffyrdd gwahanol o gysylltu â nhw.

Yn ogystal â chynhyrchu incwm, nodwyd hefyd fod cynorthwyo cyfathrebu rhwng busnesau lleol a chwsmeriaid lleol yn bwysig; Gall cynghorau greu a gwerthu cyfleoedd yn annibynnol, a thrwy gefnogi busnesau lleol, mae'n helpu i roi'r arian yn ôl i'r gymuned.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod y gwaith sy'n ymwneud â nawdd asedau a chefnogi busnesau lleol yn rhoi cyfle i unigolion gael ymdeimlad o le a chymuned; roedd llawer o fanteision i hyn megis gwella'r amgylchedd lleol ac ychwanegu cysylltiadau at dwristiaeth.

Canmolwyd y Cydlynnydd Masnachol am ei waith caled ar noddi asedau, a chroesawodd yr aelodau ddiweddariadau pellach yn y dyfodol.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys y diweddariad.

## 5. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Dewisodd y pwyllgor graffu ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 - Adolygiad o Ddeddf Teithio Llesol CNPT

\*Ailbwysleisiodd y Cynghorydd S Pursey ei fudd ar y pwynt hwn a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon yn unig\*

Cyflwynwyd adroddiad i'r aelodau a oedd yn ymwneud â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013; Adolygiad o Deithio Llesol CNPT.

Amlygwyd yn ystod y cyfarfod fod gwybodaeth wedi'i hepgor o atodiad 3 i'r adroddiad a ddsbarthwyd. Ddsbarthwyd fersiwn wedi'i diweddarau yn y cyfarfod a'i hatodi i'r cofnodion er gwybodaeth.

Rhoddodd y Rheolwr Polisi Cynllunio drosolwg byr o'r cynigion a gynhwyswyd yn yr adroddiad a ddsbarthwyd.

Roedd yr aelod lleol dros Gwaun-Cae-Gurwen, a oedd yn bresennol yn y cyfarfod, wedi annog preswylwyr i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad diweddar; roedd llawer o ddiddordeb ganddynt, a chyflwynodd llawer ohonynt ymateb. Fodd bynnag, roeddent yn siomedig i weld bod y meysydd blaenoriaeth uchel i'w gweld yn yr ardaloedd poblog; tynnwyd sylw at bwysigrwydd cael rhagor o gysylltedd yng nghymunedau'r cymoedd, a chodwyd pryderon ynglŷn â'r datblygiadau polisi croes.

Cyfeiriodd swyddogion at Fatricks Blaenoriaethu Llywodraeth Cymru a ddefnyddiwyd fel canllaw i sgorio'r llwybrau drwy ddefnyddio meini prawf, a nodwyd yn yr adroddiad a ddsbarthwyd; roedd y system sgorio wedi'i hawtomeiddio drwy system GIS, ac mae'r sgorau a ddeilliodd o hynny yn penderfynu a oedd llwybr yn cael ei flaenoriaethu fel blaenoriaeth uchel, ganolig neu isel. Hysbyswyd yr aelodau fod y system hon yn ddangosol, a chadarnhawyd bod swyddogion wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru i weld a ellid newid hyn; Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth swyddogion mai offeryn i gynghorau ei ddefnyddio oedd y system. Cynigiodd yr adroddiad a ddsbarthwyd ymgynghoriad pellach o bythefnos, i roi gwybod i'r cyhoedd am ddsbarthiad a blaenoriaethu'r llwybrau; a chasglu sylwadau gan y cymunedau ynglŷn â hyn, y bydd swyddogion yn eu hystyried.

Yn ychwanegol at hyn, dywedwyd y bydd asesiad arall, mwy manwl a chadarn, a fydd yn edrych yn fanwl ar elfennau megis; a oes gan y

llwybr ganiatâd cynllunio, perchnogaeth y tir, a'r effeithiau ar fioamrywiaeth.

Rhoddodd swyddogion sicrwydd i'r aelodau fod lle i ychwanegu at gryfder y teimlad a'r angen lleol, a gobeithiwyd y bydd yr ymgynghoriad ychwanegol o bythefnos yn cyflawni hyn; yn ddelfrydol, byddai swyddogion wedi hoffi ymestyn y cyfnod hwn, fodd bynnag, roedd yr amserlenni a'r terfynau amser ar gyfer y gwaith hwn yn dynn iawn ac yn prysur agosáu. Nodwyd y byddai'r wythnosau nesaf yn bwysig o ran casglu sylwadau pellach gan gymunedau, er mwyn nodi llwybrau penodol amlwg, yn enwedig yn ardaloedd y cymoedd.

Cydnabuwyd, ers sefydlu Deddf Teithio Llesol (Cymru), fod ffocws y cyllid wedi'i ddyrannu i ardaloedd adeiledig fel canol trefi; yr ardaloedd hyn a gafodd yr effaith fwyaf, ac roeddent yn lleoedd lle gellid cyflawni Teithio Llesol yn hawdd. Fodd bynnag, soniwyd bod gan y cyngor rôl i nodi ble y gellid sicrhau enillion yn y cymunedau mwy ynysig; gwnaed ymdrechion ymwybodol, drwy gamau gwahanol y mapiau, i geisio cysylltu cymunedau'r cymoedd yn well.

Anogwyd yr aelodau i gyfeirio eu hetholwyr at yr ymgynghoriad pythefnos ychwanegol, a fydd yn casglu sylwadau terfynol ar y llwybrau Teithio Llesol.

Yn dilyn y cyflwyniad a dderbyniwyd yn gynharach yn y cyfarfod ar Brosiect Twannel y Rhondda, tynnodd yr aelodau sylw at y ffaith nad oedd unrhyw lwybrau Teithio Llesol sylweddol yn gysylltiedig â'r lleoliad hwn. Esboniodd swyddogion eu bod wedi bod yn rhan o drafodaethau gyda Chymdeithas Twannel y Rhondda ynglŷn â'r mater hwn. Nodwyd bod gan Deithio Llesol ystyr penodol yng Nghymru; roedd yn hwyluso teithiau pellter byr, pwrpasol i leoedd fel ysgolion a siopau. Hysbyswyd yr aelodau fod safle Twannel y Rhondda yn fwy cysylltiedig â thwristiaeth, ac ar y sail honno byddai'n anodd iawn cyfiawnhau cynnwys llwybrau yn seiliedig ar y meini prawf a sut yr ysgrifennwyd y Ddeddf; nid oedd llwybrau a oedd ond at ddibenion twristiaeth a hamdden yn cyd-fynd â syniadau ac egwyddorion sylfaenol Teithio Llesol. Ychwanegodd swyddogion y gallai fod cyfleoedd yn y dyfodol, a allai ddadlau dros sefydlu'r cynlluniau hyn yn y mathau hyn o leoliadau.

Cododd y pwyllgor bryderon ynghylch y materion staffio presennol yn y gwasanaeth, a dywedodd y gallai adnoddau ychwanegol helpu swyddogion i gyflawni mwy o'r agenda Teithio Llesol. Cadarnhaodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd fod adnoddau'n broblem sylweddol ar hyn o bryd. Esboniwyd bod y gwaith o gyflwyno'r

swyddogaeth Teithio Llesol yng nghyngor CNPT wedi'i rannu rhwng dau wasanaeth; ymdriniodd y Gwasanaeth Polisi Cynllunio â'r ochr strategol o ran datblygu'r mapiau, ac ymdriniodd y Gwasanaeth Peirianeg a Thrafnidiaeth â'r gwaith o gyflwyno a rhoi ar waith. Dywedwyd bod y timau wrthi'n trafod sut y gellid gwella'r gwasanaeth yn fewnol; cwestiynu a oedd angen ailstrwythuro neu adlinio'r broses o gyflawni'r agenda Teithio Llesol. Cydnabuwyd bod yr agenda wedi datblygu'n sylweddol ers sefydlu'r ddeddf; roedd bellach angen llawer mwy o waith.

Gofynnwyd a fyddai rhaglen ariannu barhaus gan Lywodraeth Cymru yn symud ymlaen gyda'r agenda Teithio Llesol. Roedd swyddogion yn rhagweld y byddai'r cyllid yn parhau, a rhagwelir y byddai'r gronfa o arian sydd ar gael ar gyfer Teithio Llesol yn debygol o gynyddu oherwydd yr uchelgais i gyflwyno hyn yn fwy helaeth ledled Cymru; roedd y Teithio Llesol wrth wraidd polisi Llywodraeth Cymru ac roedd yn rhan annatod o lawer o'r hyn a oedd yn cael ei wthio allan i Awdurdodau Lleol. Fodd bynnag, dywedwyd bod y gronfa o arian ar gyfer hyn yn gyfyngedig gan ei bod yn cael ei rhannu rhwng yr holl Awdurdodau Lleol ledled Cymru.

At hynny, anogwyd yr aelodau i lobïo aelodau'r Senedd; gallai hyn wella'r gyfran o'r arian. Nodwyd bod gan swyddogion rôl i sicrhau bod y naratif cywir yn cael ei gynnwys wrth gyflwyno'r ceisiadau am gyllid i Lywodraeth Cymru, er mwyn cefnogi'r ceisiadau.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

### Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2021/2022 - Chwarter 2

Cyflwynwyd Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2021/2022 ar gyfer Chwarter 2 i'r pwyllgor.

Cyfeiriwyd at nifer y toriadau PM10 yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer (Port Talbot/Tai-bach); Gofynnodd yr aelodau am eglurder ar y ffigurau a gynhwyswyd yn yr adroddiad a ddsbarthwyd.

Dyweddodd swyddogion wrth y pwyllgor mai'r targed gwirioneddol o ormodiant bob blwyddyn oedd 35; roedd y ffigurau yn yr adroddiad a ddsbarthwyd yn dangos bod y cyngor yn is na'r targed ar hyn o bryd. Esboniwyd mai 18 o doriadau oedd y targed hanner blwyddyn ar gyfer 2021/22, ac roedd y cyngor wedi cyrraedd 17 o doriadau. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at y ffaith bod y cyngor yn profi mwy o ormodiant eleni o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol; roedd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd wedi siarad â swyddogion ynghylch y

rheswm dros hyn. Nodwyd bod swyddogion wedi cael cyfarfod â Llywodraeth Cymru yn ddiweddar ar y mater penodol hwn, a chanfuwyd bod ffynhonnell debygol y toriad yn dod o waith dur TATA; Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), sef rheoleiddwyr gweithrediad TATA, ymchwilio i'r hyn y gallai'r cynnydd fod yn gysylltiedig ag ef.

Hysbyswyd yr aelodau fod yr ymchwiliad yn parhau, ac nid oedd unrhyw resymau amlwg dros y cynnydd a adroddwyd ar hyn o bryd; Roedd CNC wedi awgrymu y gallai fod yn gysylltiedig â'r ffaith bod cynhyrchu wedi lleihau ar y safle, a allai achosi allyriadau sy'n ffoi o'r pentyrrau stoc ar brydiau. Ychwanegwyd bod TATA wedi cael cais penodol i drin y pentyrrau stoc hynny rhag ofn mai nhw oedd y ffynhonnell. Soniodd swyddogion fod rhannau o'r gweithrediad hefyd y byddai angen eu hadnewyddu neu eu hadnewyddu cyn bo hir; ar ôl gwneud hyn, gellid gwella'r lleoliad. Dywedodd swyddogion fod y cynnydd mewn toriadau'n bryder, ond roedd hyn yn cael ei fonitro'n agos, a byddai'n parhau i gael ei fonitro drwy Chwarteri 3 a 4 y flwyddyn adrodd.

Tynnwyd sylw at y ffaith pe bai'r astudiaeth beilot ynghylch y synwryddion a oedd ar waith ar hyn o bryd yn llwyddiannus, y gallai ganiatáu i swyddogion gael gwell dealltwriaeth o leoliad y llygredd lleol; gallai hyn fod o gymorth fel rhan o'r ymchwiliad wrth symud ymlaen.

Yn dilyn craffu, nododd y pwyllgor yr adroddiad.

#### Cynllun Datblygu Lleol Newydd Castell-nedd Port Talbot (CDLIN) 2021-2036

Rhoddodd swyddogion adroddiad ar Gynllun Datblygu Lleol Newydd Castell-nedd Port Talbot (CDLIN) 2021-2036.

Roedd yr aelodau'n falch o weld bod ymgysylltu'n bersonol wedi'i gynnwys yn yr adroddiad, lle y bo'n briodol; roedd hyn yn rhoi cydbwysedd, a'r gallu i dargedu demograffeg ehangach, gan nad oedd pawb yn gallu ymgysylltu ar-lein. Ar ben hynny, rhoddodd lawer mwy o hyblygrwydd i'r cyngor o ran ymgysylltu â'r gymuned.

Dywedodd swyddogion fod y pandemig yn tynnu sylw at yr angen i fod yn hyblyg ac y gall amgylchiadau newid yn eithaf cyflym; bydd yr hyblygrwydd a oedd wedi'i gynnwys yn y cytundeb cyflawni yn sicrhau, beth bynnag fo'r amgylchiadau ar unrhyw adeg benodol, y bydd y cyngor yn gallu ymgysylltu'n effeithlon â'r gymuned.



Rhoddodd swyddogion sicrwydd i'r aelodau y byddai adolygiad y CDLIN yn gynhwysfawr, a byddai'n edrych ar bob un pwnc a drafodwyd yn y CDLI; bydd hefyd yn edrych ar unrhyw feysydd polisi nad oedd gan y cyngor ddarpariaeth fframwaith polisi ar eu cyfer. Nodwyd y bydd y CDLI yn cael ei gefnogi gan gryn dipyn o dystiolaeth; os yw'r dystiolaeth yn awgrymu y byddai angen polisi, yna roedd dyletswydd ar y cyngor i ddatblygu'r polisi hwnnw yn unol â hynny.

Cynhaliwyd trafodaeth mewn perthynas â'r amserlen ar gyfer cyflwyno safleoedd ymgeisiol; roedd y tîm ar hyn o bryd yn gweithio ar fethodoleg asesu safleoedd ymgeisiol a'r nodiadau arweiniol. Y gobaith oedd y byddai'r rhain yn cael eu cyhoeddi ar y wefan ganol mis Ionawr 2022; dechreuodd yr alwad am safleoedd ymgeisiol yn swyddogol ym mis Mawrth 2022 a byddai'n para tan fis Mai 2022. Soniwyd y byddai'r gofrestr yn cael ei chyhoeddi ym mis Mai 2022, ar ôl yr Etholiadau Llywodraeth Leol. Hysbyswyd yr aelodau fod yr adroddiad a ddosbarthwyd yn cynnwys amserlen lawn y CDLIN.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

### Grant Creu Lleoedd – Trawsnewid Trefi

Diweddarwyd yr aelodau ar y cyllid a gafwyd gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno Grant Creu Lleoedd Rhaglen Trawsnewid Trefi De Orllewin Cymru.

Gofynnwyd a oedd y cyngor wedi gwneud paratodau er mwyn manteisio i'r eithaf ar y grant. Esboniwyd bod £4.5 miliwn wedi'i ddyrannu i'r rhanbarth; roedd hyn yn rhoi tua £1.1miliwn i Gyngor CNPT, ond roedd cyfle i ofyn am ragor os oedd angen. Roedd swyddogion yn honni y byddai'r swm a ddyrannwyd yn cael ei wario, ac efallai y bydd angen rhagor o arian er mwyn cyflawni'r prosiectau a oedd wedi'u trefnu; roedd rhai o'r rhain yn cynnwys adnewyddu safleoedd masnachol, a rhai swyddi llai fel y marchnadoedd a'r siopau dros dro.

Cydnabu'r tîm fod llawer o arian Llywodraeth Cymru yn cael ei ddyrannu i'r ardaloedd trefol mwy; Cyflwynodd swyddogion restr hir yn gofyn am waith arfaethedig mewn aneddiadau eilaidd, megis Tai-bach, Sgiwen, y Cymer a Gwauncaegurwen. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd Llywodraeth Cymru yn cefnogi hyn, a dywedwyd wrth swyddogion fod yn rhaid iddynt ganolbwyntio ar yr aneddiadau mwy. Hysbyswyd yr aelodau nad oedd hyn yn atal unrhyw aneddiadau

eraill rhag cael eu cyflwyno, pe bai swyddogion yn gallu cyflwyno achos cryf i Lywodraeth Cymru; Anogwyd yr aelodau i gysylltu â'r Tîm os oedd ganddynt achos penodol.

Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â'r agenda ddigidol ar gyfer trawsnewid trefi, a holwyd a ellid defnyddio'r Grant Creu Lleoedd - Trawsnewid Trefi ar gyfer gwaith digidol. Dywedodd swyddogion fod yr adroddiad a ddosbarthwyd yn edrych ar ddarparu dealltwriaeth o sut y gellid defnyddio digidol i wella nifer yr ymwelwyr a mesur nifer yr ymwelwyr etc.; a bod gwaith y Fargen Ddinesig yn cyd-fynd yn well â'r agenda ddigidol, a bydd ganddo ei ffrydiau ariannu ei hun i gyflawni rhywfaint o'r gwaith hwnnw.

Codwyd yr anhawster o wneud cais a bwrw ymlaen â cheisiadau am grantiau; Gofynnodd yr aelodau a oedd swyddogion yn dal i allu diwallu anghenion cymorth y busnesau a oedd yn gymwys i gael y grant. Nodwyd y byddai swyddogion yn helpu ym mha ffordd bynnag yr oeddent yn gallu gwneud hynny; fodd bynnag, roedd hyn yn gyfyngedig oherwydd oriau staffio ac adnoddau cyfyngedig. Cydnabu swyddogion yr her, a soniwyd ei bod yn anodd dosbarthu'r arian; roedd angen rhoi llawer o isadeiledd ar waith i sicrhau bod yr arian yn cael ei ddosbarthu'n deg a'i fod yn cydymffurfio â meini prawf y grant.

Cadarnhaodd swyddogion y byddent yn darparu adroddiad dilynol yn amlinellu'r cyfleoedd ariannu yr oedd y cyngor yn mynd i'w datblygu a sut y byddai'r arian yn cael ei ddefnyddio.

Yn dilyn craffu, nododd y pwyllgor yr adroddiad.

## 6. **BLAENRAGLEN WAITH**

Nododd yr aelodau'r Flaenraglen Waith Craffu ar Adfywio a Datblygu Cynaliadwy ar gyfer 2021/22.

## 7. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**PENDERFYNWYD:** Gwahardd y cyhoedd yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 Adran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod

## 8. **CRAFFU EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU**

Craffodd y pwyllgor ar yr eitem breifat ganlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

### Y Diweddaraf am Brosiect Twannel y Rhondda

Rhodddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am Brosiect Twannel y Rhondda.

Crynhodd y Cadeirydd y trafodaethau a gynhaliwyd; a thynnodd sylw at y ffaith y byddai angen i aelodau benderfynu pa un o'r ddau opsiwn, a gynhwysir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, y byddent yn ei argymhell i Fwrdd y Cabinet.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant ffurfiol i 'Opsiwn B' a gynhwyswyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd:

Am y tro, dylai'r cyngor gadw ei sefyllfa bresennol, sef y byddwn yn cefnogi'r prosiect mewn egwyddor, gan roi cyngor lle bo angen i unrhyw drydydd parti sy'n ymwneud â'r prosiect, ond ni fyddwn yn ymgymryd ag unrhyw gyfrifoldeb ffurfiol am godi arian yn y dyfodol mewn perthynas ag ymrwymadau posib i ariannu arian cyfatebol. Ni fyddwn ychwaith yn cymryd unrhyw berchnogaeth o'r twannel, wedi'i rhannu neu fel arall, nac yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am reoli'r twannel yn y dyfodol, gan gynnwys unrhyw ofynion cymhorthdal. Bydd y sefyllfa hon yn cael ei hadolygu'n gyson, a gellir ei diwygio yn y dyfodol pe bai'r prosiect yn symud ymlaen tuag at gyflawni er boddhad y cyngor ac yn cyflwyno manteision i Fwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot gydag adroddiadau yn y dyfodol yn cael eu dwyn yn ôl i'r aelodau fel y bo'n briodol.

Penderfynwyd bod y pwyllgor o blaid y gwelliant i 'Opsiwn B' i'w ystyried gan Fwrdd y Cabinet.

## **CADEIRYDD**

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag

### Appendix 3 - Draft classification and prioritisation of Active Travel routes

#### Classification of routes

Routes are designated by the importance of the connections they make within the network, they are classified into the following categories:

**Primary routes:** The key connections between neighbourhoods/residential areas and a town or city centre; routes between districts and neighbourhoods; links to main public transport interchanges; other cycle routes which are (or which have the potential to be) used by many cyclists;

**Secondary routes:** These link between the primary routes; links to trip attractors such as schools, colleges, employment sites; cycle routes which are an attractor for a more limited range of users; links to local public transport interchanges and stops; other routes which may cater for fewer cycle journeys than the primary routes but are still of strategic importance within the network Network planning and map preparation;

**Local routes:** All other all-purpose roads, greenways and bridleways that are not necessarily part of a designated route (e.g. many residential streets). This basic network of local routes, although lower in the hierarchy, forms an important part of the cycle network.

Reference	Settlement	Description	Electoral wards the route passes through	Route use	Route classification	Priority
FR-BLAE-SU001	Blaengwrach	Cwmgwrach to B4242 via Blaengwrach, Heol Wenallt - High Street - Chain Road - A465, Neath	Glynneath , Blaengwrach	Shared use	Secondary	Medium
FR-BLAE-SU002	Blaengwrach	Blaengwrach to Glyn Neath via Empire Avenue & Parish Road, Neath	Blaengwrach	Shared use	Local	Medium
FR-LBA-SU001	Brynamman	Brynamman to Ystragynlais	Lower Brynamman	Shared use	Primary	Medium
FR-LBA-SU002	Brynamman	Amman Rd, Lower Brynamman	Quarter Bach , Lower Brynamman	Shared use	Primary	Low
FR-LBA-SU003	Brynamman	Parc Street, Lower Brynamman	Lower Brynamman	Shared use	Primary	Low
FR-LBA-SU004	Brynamman	Gwilym Road	Cwmllynfell	Shared use	Primary	Low
FR-LBA-SU005	Brynamman	Ystradowen to Cwmtwrch	Cwmllynfell	Shared use	Primary	Low

Reference	Settlement	Description	Electoral wards the route passes through	Route use	Route classification	Priority
FR-LBA-SU006	Brynamman	Ystradowen to Cwmtwrch	Ystalyfera , Cwmllynfell	Shared use	Local	Medium
FR-LBA-W001	Brynamman	School Street, Lower Brynamman	Lower Brynamman	Walking	Secondary	Low
FR-CROE-SU001	Croeserw	Eastern Avenue, Croeserw	Cymmer	Shared use	Primary	Medium
FR-CROE-W001	Croeserw	Heol Dwyfor, Croeserw	Cymmer	Walking	Secondary	Medium
FR-CRY-C002	Crynant	Crynant to Ystradgynlais	Crynant	Cycling	Primary	Low
FR-CRY-SU001	Crynant	Neath Road, Crynant	Crynant	Shared use	Primary	Medium
FR-NEA-C001	Crynant	Aberdulais to Crynant	Crynant , Aberdulais	Cycling	Primary	Medium
FR-CWM-SU001	Cwmafan	Heol Camlas, Cwmafan	Bryn and Cwmavon	Shared use	Secondary	Medium
FR-CWM-SU002	Cwmafan	Depot Rd, Cwmafan	Bryn and Cwmavon	Shared use	Secondary	Medium
FR-CWM-SU003	Cwmafan	Residential link, Cwmafan,	Bryn and Cwmavon	Shared use	Local	Medium
FR-CWM-SU004	Cwmafan	Cwmafan Rd, Cwmafan	Bryn and Cwmavon	Shared use	Secondary	Medium
FR-CWM-SU005	Cwmafan	Ynys y Gwas Hill, Cwmafan	Bryn and Cwmavon	Shared use	Secondary	Medium
FR-CWM-SU006	Cwmafan	NCN 887, Cwmafan	Bryn and Cwmavon , Port Talbot	Shared use	Primary	Medium
FR-CWM-SU007	Cwmafan	Oakwood ave, Pontrhydyfen	Bryn and Cwmavon , Pelenna	Shared use	Primary	Medium
FR-CWM-W001	Cwmafan	Cwmafan Rd, Cwmafan	Bryn and Cwmavon	Walking	Primary	Medium
FR-CWM-W002	Cwmafan	Tabernacle Terrace, Cwmafan	Bryn and Cwmavon	Walking	Secondary	Medium
FR-CWM-W003	Cwmafan	Old Market Place, Cwmafan	Bryn and Cwmavon	Walking	Secondary	Medium
FR-CWM-W004	Cwmafan	NCN 887, Cwmafan	Bryn and Cwmavon	Shared use	Primary	Medium
FR-CWM-W005	Cwmafan	Heol Jiwbili	Bryn and Cwmavon	Walking	Secondary	Medium
FR-CWM-W006	Cwmafan	Afan Valley Road to Ynys Y Gwas	Bryn and Cwmavon	Walking	Secondary	Medium
FR-CWM-W007	Cwmafan	B4286, Cwmavon	Bryn and Cwmavon	Walking	Secondary	Medium
FR-CYM-SU001	Cymmer	Route Connecting Cymer to NCN route to Glyn Corrwg	Cymmer	Shared use	Primary	Medium
FR-CYM-SU002	Cymmer	NCN 885 Glenavon St to Maesteg Road	Cymmer	Shared use	Primary	Medium

<b>Reference</b>	<b>Settlement</b>	<b>Description</b>	<b>Electoral wards the route passes through</b>	<b>Route use</b>	<b>Route classification</b>	<b>Priority</b>
